COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 24 EBRILL 2025 AM 10:00

Yn Bresennol

G Chapman – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| RM Granville | S Easterbrook | C Davies |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| N Clarke | S J Griffiths | MJ Williams |

Aelodau Lleyg – yn Bresennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| B Olorunnisola | A Bagley | Deb Austin |

Hefyd yn Bresennol:

J Spanswick

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M L Hughes ac R J Smith

Datganiadau o Fuddiant

Dim

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru |
| Lucy Herman | Archwilio Cymru |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Simon Roberts | Uwch-ymchwilydd Twyll |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cymorth |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Christopher Morris | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol, Cau a Systemau |

## 207. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 30 Ionawr 2025 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 208. Cofnod Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi Cofnod Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Aelodau. |

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.**

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Camau Gweithredu, gan wneud sylwadau fel y bo'n briodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 209. Adroddiadau Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno tri adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor: manylion y diweddariad chwarterol ar y Rhaglen Waith a'r Amserlen fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2025, ynghyd â Chrynodeb Archwilio Blynyddol 2024 a Chynllun Archwilio Manwl 2025.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, croesawodd un o'r Aelodau yr ad-daliad bach yn y ffi am wasanaethau Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor adroddiadau Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd yn **Atodiad A**, **Atodiad B** ac **Atodiad C**. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 210. Traciwr Rheoleiddio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y Traciwr Rheoleiddio a oedd wedi'i ddiweddaru hyd at ddiwedd Chwarter 3 (Ch3) 2024-25 a'r materion a godwyd ar y Traciwr Rheoleiddio y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor amdanynt ym mis Ionawr 2025.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Y byddai'n ddefnyddiol cael colofn sy'n cynnwys y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol ar gyfer cwblhau camau gweithredu a cholofn ar wahân ar gyfer dyddiadau diwygiedig.<br>• P'un a ellid creu dogfen fyw er mwyn tracio cynnydd yn fwy rheolaidd ai peidio.<br>• Nad oedd bob amser yn glir pam roedd gan gam gweithredu statws coch neu oren.<br>• Bod angen trafodaeth bellach y tu allan i'r cyfarfod er mwyn ystyried yr hyn sy'n ofynnol er mwyn rhoi sail resymegol dros atgyfeirio o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Pwyllgor Craffu a chytuno ar hynny. Yn ddelfrydol, dylai'r sail resymegol gynnwys ystyriaeth i werth am arian ac ansawdd gwasanaethau a ddarperir.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y broses wedi'i diweddaru er mwyn i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ystyried y traciwr rheoleiddio, cytuno i newid y diweddariadau ynghylch y traciwr rheoleiddio yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fis Ebrill a mis Hydref bob blwyddyn (ac adrodd ar y rhai â statws coch mewn cyfarfodydd yn y cyfamser), ac ystyried y trefniadau craffu ym mharagraffau 3.10–3.15.<br><br>Yn ogystal â hynny, cynigiodd Aelodau, lle y rhoddir gwybod i'r Pwyllgor am statws coch i unrhyw gam gweithredu ddwywaith yn olynol, y caiff yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr priodol eu gwahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod y rhesymau dros yr oedi. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 211. Dull Hunanasesu ar gyfer 2024/25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd myfyrio ar hunanasesiad 2023/24 a chyflwyno dull arfaethedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer datblygu hunanasesiad 2024/25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • O ran dadansoddi a chofnodi tueddiadau perfformiad yn y tymor hir, roedd yn bwysig ychwanegu ffyrdd gweledol o ddangos yr hyn sydd wedi gwella, yr hyn a allai fod yn gwaethygu, a ph'un a fydd angen symud ffocws o un maes gweithgaredd i un arall ai peidio.<br>• P'un a oedd cyfle i ddiwygio'r broses ymhellach ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai ac ar ôl i'r Prif Weithredwr newydd gyrraedd ym mis Gorffennaf ai peidio.<br>• Gwahanol rolau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses. Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw dadansoddi'r data perfformiad yn fanwl ac ystyried a yw'r naratif yn cyfateb i'r hyn y mae wedi'i weld a'i werthuso o ran perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwneud llawer mwy â rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor fecanweithiau perfformiad a fframwaith perfformiad sy'n gallu rhoi asesiad cywir a gonest i'r Cyngor o'i berfformiad. O ystyried y rolau gwahanol hyn, byddai'n well pe bai'r hunanasesiad yn mynd at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn gyntaf ac yna at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y broses bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr hunanasesiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. O ystyried hyn, a chyn unrhyw drafodaethau ynglŷn â newid y broses, byddai'n ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor gael diweddariad ym mis Medi ynghylch unrhyw newidiadau a wnaed gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer hunanasesiad 2024/25 a chytuno arni. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 212. Cod Llywodraethu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Bod angen i'r Cod adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ar 9 Ebrill i gydnabod pwysigrwydd yr argyfwng natur a gafodd ei ddatgan gan y Senedd yn 2021, ac i weithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau newydd ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled y fwrdeistref sirol.<br>• Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno drafft â newidiadau wedi'u tracio ynddo, a gofynnodd iddynt ychwanegu 'aelodau annibynnol' at y rhestr termau.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>• Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r fersiwn wedi'i diweddaru o God Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor sydd yn Atodiad B, yn amodol ar wneud newidiadau priodol i ystyried y cynnig ynghylch yr argyfwng natur y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cyngor ar 9 Ebrill. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 213. Adolygiad o'r Polisi Atal Osgoi Treth

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Polisi Atal Osgoi Treth wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei gymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• P'un a oedd cyngor cymuned yn 'gorff perthnasol' yng nghyd-destun Deddf Cyllid Troseddol 2017 ai peidio. Ymrwymodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid i egluro hyn a hysbysu'r Aelodau maes o law.<br>• P'un a allai fod angen i'r Aelodau gael hyfforddiant ychwanegol ar y polisi hwn ai peidio. Nododd y Dirprwy Bennaeth Cyllid nad oedd hyfforddiant penodol ar y polisi ei hun ond bod nifer o fodiwlau hyfforddiant ar gael ar dwyll ac atal twyll.<br>• Y ffyrdd posibl o osgoi treth a'r gwendidau mewn systemau sy'n golygu bod angen i swyddogion fod yn wyliadwrus drwy'r amser. |

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.**

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor ystyried y Polisi Atal Osgoi Treth diwygiedig sydd wedi'i atodi yn **Atodiad A**.<br><br>Ymrwymodd y swyddogion i archwilio pa hyfforddiant pellach y gellid ei roi i Aelodau pan gaiff polisïau eu diwygio a'u diweddaru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 214. Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025/26 i 2027/28

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025/26 i 2027/28 y Cyngor i'r Pwyllgor yn unol â swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael ei chymeradwyo. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r strwythur a'r dull cyffredinol ar gyfer rheoli'r risg o dwyll.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y risg o dwyll yng nghadwyn gyflenwi'r Cyngor a ph'un a oedd unrhyw dwyll wedi cael ei ddarganfod dros y flwyddyn ddiwethaf ai peidio. Mewn ymateb i hynny, nododd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y bydd y gwasanaeth, pan fydd yn datblygu ei gynllun gwaith blynyddol, bob amser yn edrych ar feysydd risg fel credydwyr, caffael, anfonebu, gan gynnwys mewn ysgolion a chartrefi gofal, ac agweddau eraill ar y gadwyn gyflenwi.<br>• Yn dilyn y drafodaeth am Adroddiad Twyll Corfforaethol 2023-24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024, holodd un o'r Aelodau am ganlyniad y posibilrwydd o gyflogi mwy o bobl yn yr Adran Dwyll, a ph'un a fyddai hyn yn ffordd o gynyddu refeniw i'r Cyngor ai peidio. Nododd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod hyn wedi cael ei ystyried ond bod penderfyniad wedi cael ei wneud mai cynyddu adnoddau yn y Tîm Budd-daliadau fyddai'r defnydd gorau o adnoddau. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu dyrannu i adolygiadau i sicrhau y caiff gwybodaeth am gleientiaid ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod hawl pobl i gael budd-daliadau yn gywir, a lleihau gordaliadau.<br>• Ei bod yn bwysig pennu mesuriadau llwyddiant. Ymrwymodd yr Uwch-ymchwilydd Twyll i ailedrych |

| | |
|---|---|
| | ar hyn.<br>• Mai ysgolion yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau mewnol yn genedlaethol ond, fel y nododd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, mai atgyfeiriadau isel eu gwerth yw'r rhain, ac mai at ddibenion sicrwydd y gwneir hyn fel arfer yn hytrach nag am fod amheuaeth o dwyll.<br>• P'un a oedd y strategaeth yn cynnwys bathodynnau glas ai peidio. Cadarnhaodd yr Uwch-ymchwilydd Twyll ei bod yn eu cynnwys.<br>• Ei bod yn bwysig canfod arferion da, yn enwedig o ran defnyddio technolegau digidol ac, felly, y dylem fanteisio ar arbenigedd Data Cymru.<br>• Tynnodd un o gynrychiolwyr Archwilio Cymru sylw at y Fenter Twyll Genedlaethol, y mae ei gwaith i'w weld yn y cyfeiriad canlynol: https://www.audit.wales/cy/ein-gwaith/menter-twyll-genedlaethol. Gwnaeth y cynrychiolydd hefyd nodi bod y tîm yn ystyried cynnal adolygiad o drefniadau atal twyll ar hyn o bryd.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor adolygu'r fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025/26 i 2027/28 y Cyngor cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael ei chymeradwyo. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

**215. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch yr argymhellion archwilio a oedd wedi'u gwneud, wedi'u rhoi ar waith a heb eu rhoi ar waith hyd at 31 Mawrth 2025, ac ystyried y wybodaeth a roddwyd am statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaeth Aelodau godi a thrafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Yr achosion difrifol o oedi cyn cwblhau camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn tri maes: Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor, Gorfodi Rheolau Parcio, a Datganiad |

| | |
|---|---|
| | Blynyddol Harbwr Porthcawl.<br>• P'un a yw'r materion y tynnwyd sylw atynt yn awgrymu y gallai fod patrwm yn dod i'r amlwg ynglŷn â'r diwylliant mewn Cyfarwyddiaeth benodol, ac felly hefyd a oes un pwynt methiant yn y Gyfarwyddiaeth honno.<br>• Y byddai'r gwaith a nodwyd ar Hawliau Tramwy wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried y wybodaeth a roddwyd am statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Argymhellodd Aelodau y dylai'r Aelod Cabinet, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r swyddogion cyfrifol priodol gael eu gwahodd i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gaiff ei drefnu cyn y cyfarfod rheolaidd nesaf i ystyried a thrafod tri mater y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiadau canlynol: Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor, Gorfodi Rheolau Parcio, a Datganiad Blynyddol Harbwr Porthcawl.<br><br>Gofynnodd Aelodau am i ddiweddariad ysgrifenedig gael ei gyflwyno sy'n mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol – Contractau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 216. Blaenraglen Waith 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth i'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2025-26.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2025-26, yn amodol ar ddau newid: diwygio'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno'r Traciwr Rheoleiddio i adlewyrchu'r |

| | |
|---|---|
| | argymhelliad yn Eitem Agenda 6, a threfnu cyfarfod arbennig ar ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin i ystyried y materion y tynnwyd sylw atynt yn Eitem Agenda 11. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

## 217. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Ebrill 2025 |

I weld trafodaethau pellach a gafwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:31.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.**